**Disgrifiad o Rôl Ymddiriedolwr**

| | |
|---|---|
| **Teitl y Rôl:** | Ymddiriedolwr (Cyfarwyddwr) |
| **Cyflog:** | Rôl heb dâl yw hon, er y bydd costau teithio a threuliau allan o boced rhesymol yn cael eu had-dalu. |
| **Ymrwymiad Amser:** | Pedwar cyfarfod Bwrdd y flwyddyn, gyda'r nos ar ddyddiau'r wythnos.<br>Rhywfaint o waith pwyllgor rhwng cyfarfodydd.<br>Disgwylir ymrwymiad i ddeall gweithgareddau Theatr Clwyd drwy fynychu digwyddiadau. |
| **Telerau Gwasanaeth:** | Tymor cychwynnol o 3 blynedd; gellir ailbenodi aelodau'r bwrdd am hyd at uchafswm o 3 thymor. |

Mae Theatr Clwyd yn sefydliad diwylliannol hanfodol, nid yn unig i gynulleidfaoedd lleol ond hefyd i Gymru ac yn ehangach ledled y DU.

Mae 2025 wedi bod yn flwyddyn eithriadol i'r sefydliad, wedi'i nodi gan agoriad yr adeilad wedi'i ddatblygu o'r newydd i'r cyhoedd yn dilyn prosiect cyfalaf gwerth £50 miliwn. Mae hyn yn golygu bod y ddwy flynedd nesaf yn hanfodol wrth wireddu'r cyfleoedd a gyflwynir gan fuddsoddiad mor sylweddol – gan sicrhau'r budd gorau posib o'n gofod cynhyrchu refeniw newydd, datblygu model ariannol cadarn a gwydn, a hefyd parhau i wella ein darpariaeth creu theatr o safon byd, ein rhaglenni cymunedol ymroddedig, a'n partneriaethau cadarn mewn lleoliadau celfyddydau ac iechyd.

Yn ogystal â'r adeilad sydd wedi'i agor o'r newydd yn Sir y Fflint, mae Ymddiriedolaeth Theatr Clwyd yn gyfrifol hefyd am reoli a gweithredu Neuadd William Aston yn Wrecsam. Gyda'r lleoliad yn eiddo i Brifysgol Wrecsam, mae'r ddau bartner yn awyddus i fuddsoddi yn y cyfleuster yn ystod y blynyddoedd sydd i ddod wrth i Wrecsam wneud cynnydd gyda'i datblygiad diwylliannol, yn unol â'r cais a gyhoeddwyd yn ddiweddar i ddod yn Ddinas Diwylliant y DU, 2029.

Hefyd mae gan Ymddiriedolaeth Theatr Clwyd chwaer elusen, Ymddiriedolaeth Cerddoriaeth Theatr Clwyd, ac rydym yn falch o ddarparu addysg gerddoriaeth i 78 o ysgolion a mwy na 3000 o bobl ifanc bob wythnos.

Gyda phartneriaethau cyllido hirdymor yn eu lle gyda Chyngor Sir y Fflint ac fel trydydd cleient mwyaf Cyngor Celfyddydau Cymru (a'r mwyaf y tu allan i Gaerdydd), mae gennym drosiant blynyddol o tua £13m a mwy na 200 o bobl yn aelodau craidd y cwmni. Rydym mewn sefyllfa berffaith i siapio dyfodol gwydn ac uchelgeisiol ac rydym bellach yn chwilio am ymddiriedolwr newydd i ymuno â'r Bwrdd, gyda gofyniad penodol am arbenigedd fel cyfarwyddwr ariannol ar gyfer sefydliad elusennol neu drydydd sector.

Gobeithio y bydd y cyfle hwn yn eich cyffroi chi gymaint ag y mae'n ein cyffroi ni, gan ei bod yn foment fawr i ni gael effaith gadarnhaol ar lawer o bobl, o genedlaethau'r presennol a'r dyfodol. Rydym yn edrych ymlaen at glywed gennych chi.

**Helen Watson (Cadeirydd), Liam Evans-Ford (Cyfarwyddwr Gweithredol), a Kate Wasserberg (Cyfarwyddwr Artistig)**